Rhifyn 66

# Chwarae dros Gymru

Hydref | Gaeaf
2025

Newyddion chwarae a gwybodaeth gan yr elusen genedlaethol dros chwarae



## ‘Y Gymru yr ydw i am dyfu i fyny a chwarae ynddi’

Chwarae Cymru
Play Wales

www.chwarae.cymru

# Cynnwys


**3** Newyddion

**6** Datblygu'r gweithlu

**9** Am y rhifyn hwn

**10** Arweinyddiaeth strategol

**12** Cymdogaethau chwareus

**14** Ysgolion chwareus

**16** Chwarae'n ystod adegau o ansicrwydd

**17** Diweddariad Ysgol Gynradd Windsor Clive

**18** 'Y Gymru yr ydw i am dyfu i fyny a chwarae ynddi'


## Diolch

Diolch o galon i bawb a gyfrannodd at y cylchgrawn hwn – allen ni ddim ei wneud hebddoch chi.

Mae'r rhifyn hwn o *Chwarae dros Gymru*, yn ogystal â rhifynnau blaenorol, ar gael i'w lawrlwytho o **www.chwarae.cymru**

# Golygyddol

**Mae Senedd Cymru wedi cefnogi chwarae plant ers ei sefydlu yn 1999, gan gyhoeddi Polisi Chwarae cenedlaethol cyntaf y byd ac, yn ddiweddarach, ddeddfu dros chwarae – unwaith eto, am y tro cyntaf yn y byd. Ers bron i 30 mlynedd, cafwyd cydnabyddiaeth yn genedlaethol nad yw chwarae'n elfen foethus, yn rhywbeth sy'n braf i'w gael, efallai yfory. Mae chwarae'n hawl ac yn anghenraid ar gyfer plentyndod iach a hapus.**

Rydym yn gwybod hyn oherwydd bod plant yn dal i ddweud hynny wrthym. Yn wir, fe wnaeth ein hadroddiad *Yr hyn mae plant yn ei ddweud am chwarae yng Nghymru: 2025* ar farn plant am chwarae yn eu cymdogaethau hysbysu dadl yn Senedd Cymru ar fynediad plant i chwarae ym mis Rhagfyr 2025. Siaradodd pob un o'r prif bleidiau gwleidyddol o blaid chwarae plant a galw'n gyffredinol ar i Lywodraeth Cymru ddiogelu mynediad plant i chwarae drwy gryfhau'r Ddyletswydd Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae, sydd wedi ei chynnwys yn adran Cyfleoedd i Chwarae, Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010.

Wrth inni edrych ymlaen at Lywodraeth nesaf Cymru, mae gennym gais clir a phwysig: i'r Llywodraeth barhau â'i hymrwymiad arloesol byd-eang sy'n blaenoriaethu chwarae. Mae'r ymrwymiad hwn, ers dyddiau cyntaf datganoli Cymreig, wedi arwain at ddeddfu arloesol ac arweiniad dewr. Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn gwbl groyw er mwyn i blant gael digon o gyfleoedd i chwarae, eu bod angen amser i chwarae, lle i chwarae a chydnabyddiaeth gan oedolion bod hyn yn hawl i bob plentyn.

Mae'r gydnabyddiaeth hon gan bob oedolyn yn hanfodol er mwyn sicrhau bod pob plentyn yn derbyn digon o amser a chyfleoedd i chwarae ble bynnag y maent – mewn lleoliadau chwarae a gofal plant, ysgolion, ysbytai, cymdogaethau, gartref, ac yn y blaen. Bydd llywodraeth newydd yn cynnig cyfle gwych i Gymru barhau i ddangos y ffordd. Trwy ddewis i gadw chwarae plant wrth galon polisïau perthnasol – ar draws addysg, cynllunio, iechyd a bywyd ein bröydd – bydd yn gwarchod chwarae, un o agweddau pwysicaf plentyndod iach a hapus.

> **“Mae plant eisiau amser, lle a derbyniad oedolion i brofi enydau o chwarae bob dydd – o deimlo'n iach, teimlo llawenydd a chael ymdeimlad o berthyn.”**

Mae'r neges gan blant ynghylch pam fod chwarae mor bwysig iddyn nhw yn un groch, clir a chryno. Maen nhw eisiau amser, lle a derbyniad oedolion i brofi enydau o chwarae bob dydd – o deimlo'n iach, teimlo llawenydd a chael ymdeimlad o berthyn.

Mae Cymru wedi arloesi dros chwarae. Mae'n hollbwysig i'r cynnydd rhyngwladol arloesol hwn ar ran plant, a'u hawl i chwarae, gael ei gynnal a'i feithrin. Mae gan Lywodraeth nesaf Cymru gyfle unigryw i elwa o gefnogaeth hollbleidiol i chwarae. Gall ailddatgan yr ymrwymiad hanesyddol. Gall gryfhau'r gefnogaeth. Gall ymestyn yr ymrwymiad.

**Mae Cymru sy'n gwerthfawrogi chwarae yn gwerthfawrogi plant.**

Chwarae Cymru Play Wales

Cyhoeddir *Chwarae dros Gymru* gan Chwarae Cymru ddwy waith y flwyddyn. Cysylltwch â'r Golygydd yn: Chwarae Cymru, Tŷ Parc, Heol y Brodyr Llwydion, Caerdydd CF10 3AF
Rhif ffôn: 029 2048 6050 I Ebost: gwybodaeth@chwarae.cymru
Elusen Gofrestredig Rhif 1068926 I ISSN: 1755 9243

Nid barn Chwarae Cymru o reidrwydd yw'r farn a fynegir yn y cylchgrawn hwn. Rydym yn cadw'r hawl i olygu cyn cyhoeddi. Nid ydym yn ardystio unrhyw rai o'r cynnyrch na'r digwyddiadau a hysbysebir yn neu gyda'r cyhoeddiad hwn.
Crewyd gan Carrick | carrickcreative.co.uk

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Ymunwch â Her Chwarae 31!

**Rhowch 31 munud ychwanegol o amser chwarae i blant ar Ddiwrnod Chwarae Rhyngwladol eleni.**

Y thema ar gyfer Diwrnod Chwarae Rhyngwladol y Cenhedloedd Unedig eleni – a gynhelir ar 11 Mehefin – yw Gwarchod Chwarae, Gwarchod Plentyndod.

I ddathlu, mae'r UK Children's Play Policy Forum – mewn cydweithrediad â changhennau'r International Play Association (IPA) ar hyd a lled y DU ac Iwerddon – yn galw ar i ysgolion roi 31 munud ychwanegol i blant chwarae'r tu allan ar y diwrnod. Mae plant angen amser i chwarae ar Ddiwrnod Chwarae Rhyngwladol a bob dydd.

Mae'r Diwrnod Chwarae Rhyngwladol yn adeg i ddathlu grym chwarae. Mae'n gyfle gwych:

- i gynyddu ymwybyddiaeth ynghylch pa mor ganolog yw chwarae i blentyndod iach a hapus i bob plentyn
- i atgoffa pawb bod gan bob plentyn hawl i chwarae, fel y cydnabyddir yn Erthygl 31 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP)
- i ddod ynghyd i wneud yn siŵr bod pob plentyn yn gallu cyflawni ei hawl i chwarae.

Dysgwch fwy am sut i ymuno ar: **www.chwarae.cymru/newyddion**

# Aelodaeth IPA Cymru Wales

**Ymunwch ag IPA Cymru Wales i gefnogi mudiad rhyngwladol sy'n gweithio i warchod, diogelu a hybu hawl y plentyn i chwarae. Mae aelodaeth IPA Cymru Wales ar gael i bobl sy'n byw neu'n gweithio yng Nghymru. Cynigir amrywiol lefelau aelodaeth ar gyfer unigolion a sefydliadau.**

Mae'r International Play Association (IPA) yn sefydliad rhyngwladol anllywodraethol a sefydlwyd yn 1961 i warchod, diogelu a hybu hawl plant i chwarae. Mae gan yr IPA aelodaeth eang ac amrywiol gyda changhennau gweithredol ledled y byd. Mae canghennau'r IPA yn sail ar gyfer rhwydwaith byd-eang ac maent yn cefnogi rhaglenni gwaith a gweithgarwch rhyngwladol yr IPA.

Mae gwaith, gwerthoedd ac egwyddorion IPA Cymru Wales yn cael eu cynnal gan Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) ac yn benodol Erthygl 31:

**'Mae gwladwriaethau sy'n barti yn cydnabod hawl y plentyn i orffwys a hamdden, i chwarae a chymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden sy'n briodol i oedran y plentyn ac i gyfranogi'n rhydd mewn bywyd diwylliannol a'r celfyddydau.'**

I ymuno ag IPA Cymru Wales ewch i: **www.ipaworld.wildapricot.org/wales**

# Diwrnod Chwarae 2026

**Eleni, cynhelir Diwrnod Chwarae – y diwrnod cenedlaethol ar gyfer chwarae yn y DU – ar Ddydd Mercher 5 Awst.**

Wedi ei sefydlu yn 1987, mae Diwrnod Chwarae yn ddathliad blynyddol o hawl plant i chwarae. Mae'n ymgyrch barhaus sy'n pwysleisio pwysigrwydd chwarae ym mywydau plant, gan ganolbwyntio ar thema benodol neu dynnu sylw at fater penodol neu agwedd o chwarae plant bob blwyddyn.

## Cyhoeddir y thema ar gyfer Diwrnod Chwarae eleni yn fuan...

Dilynwch dudalen Facebook Diwrnod Chwarae am y newyddion diweddaraf, neu ewch i: **www.playday.org.uk**

Yn Chwarae Cymru, mae Diwrnod Chwarae'n rhoi cyfle gwerthfawr inni bob blwyddyn i gynyddu ymwybyddiaeth am bwysigrwydd chwarae plant ar angen am ddarpariaeth chwarae o safon. Rydym yn defnyddio Diwrnod Chwarae i danlinellu'r ffaith bod chwarae'n bwysig a bod angen darpariaeth chwarae o safon bob diwrnod o'r flwyddyn ym mhob ardal o Gymru.

*Cydlynir Diwrnod Chwarae gan Play England, Play Scotland, PlayBoard Northern Ireland a Chwarae Cymru.*

# Mynediad plant i chwarae – dadl Seneddol

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**Mewn dadl yng Nghyfarfod Llawn o'r Senedd ar 17 Rhagfyr 2025, trafododd Aelodau'r Senedd fynediad plant i chwarae. Galwodd Rhys ab Owen, wedi ei gefnogi gan Russell George, Mike Hedges a Jane Dodds, ar i Lywodraeth Cymru ddiogelu mynediad plant i chwarae drwy:**

**a)** gryfhau'r ddyletswydd o dan adran 11 o Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 fel bod yn rhaid i awdurdodau lleol sicrhau digon o gyfleoedd chwarae mewn maes chwarae ar gyfer pob cymuned

**b)** datblygu ffyrdd o roi cyhoeddusrwydd i leoedd diogel a lleol i chwarae

**c)** diogelu meysydd chwarae rhag toriadau awdurdodau lleol

**d)** cefnogi grwpiau cymunedol sydd wedi cymryd cyfrifoldeb am feysydd chwarae

**e)** mynd i'r afael â'r ffaith bod gan blant, yn enwedig plant anabl, mewn ardaloedd gwledig a difreintiedig yn aml fwy o fynediad at fannau awyr agored, ond eu bod yn wynebu mwy o broblemau o ran cynnal a chadw, hygyrchedd a chynhwysiant.

Siaradodd pob un o'r prif bleidiau gwleidyddol o blaid chwarae plant, gyda chyfraniadau gan Jane Dodds, Lee Waters, Natasha Ashgar a Julie Morgan, ymysg eraill.

Caewyd y ddadl gan Dawn Bowden AS, y Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol. Derbyniwyd y cynnig – ni wrthwynebodd yr un Aelod o'r Senedd.

Cyfeiriwyd at ganfyddiadau adroddiad *Yr hyn mae plant yn ei ddweud am chwarae yng Nghymru: 2025* Chwarae Cymru trwy gydol y ddadl. Wedi arsylwi'r ddadl yn y Siambr, dywedodd Chwarae Cymru:

> **"Rydym yn croesawu'r gefnogaeth a ddangoswyd i chwarae gan bob un o'r pleidiau yn nadl y cyfarfod llawn. Er i'r drafodaeth gychwyn drwy ganolbwyntio ar fynediad i ofodau chwarae ag offer sefydlog, roedd yn galonogol clywed y drafodaeth yn ehangu i drafod yr ystod eang o gyfleoedd i chwarae, mewn amrywiol fannau, y mae plant eu hangen a ffyrdd o fynd i'r afael â'r rhwystrau i gael mynediad i'w hawl i chwarae. Roedd yn galonogol a chadarnhaol dros ben i glywed lleisiau'r plant – trwy ein hadroddiad *Yr hyn mae plant yn ei ddweud am chwarae yng Nghymru: 2025* – yn glir a chroyw drwy gyfraniadau gan bob Aelod o'r Senedd."**

Gwyliwch y ddadl ar: **www.senedd.tv**

# Rhaglen Bwndeli Babi

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**Ym mis Chwefror 2026, lansiodd Llywodraeth Cymru ei Rhaglen Bwndeli Babi newydd. Mae'r Bwndeli Babi, gaiff eu dosbarthu i deuluoedd yn ardaloedd Dechrau'n Deg ar hyd a lled Cymru, yn cynnwys eitemau hanfodol ar gyfer babis newydd-anedig a'u rhieni, gan gynnig cymorth a chefnogaeth ymarferol i baratoi ar gyfer dyfodiad babi newydd.**

Mae pob bwndel yn cynnwys amrywiaeth o ddillad ar gyfer babi newydd-anedig hyd at chwech mis oed, blancedi cynnes, llieiniau mwslin, bibiau, thermomedr, padiau bwydo a mamolaeth, mat chwarae a llyfr babi. Mae'r bwndel hefyd yn cynnwys gwybodaeth a chyngor defnyddiol ynghylch rhaglenni cymorth a magu plant.

Wrth lansio dosbarthu'r Bwndeli Babi, dywedodd Dawn Bowden AS, y Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol:

> **"Mae hon yn garreg filltir arwyddocaol o ran ein cymorth i rieni yn ystod y misoedd cynharaf sy'n cael yr effaith fwyaf ar fywyd eu plentyn … mae'r rhaglen hon wedi'i thargedu i helpu teuluoedd cymwys trwy leddfu peth o'r pwysau ariannol sy'n gysylltiedig â pharatoi ar gyfer babi newydd. Mae'r dull hwn yn caniatáu i'r cymorth gael ei roi le gall wneud y gwahaniaeth mwyaf."**

Am fwy o wybodaeth, ewch i:
**www.llyw.cymru**

# Sefydliad Playing Out yn ffarwelio

**Rhwng 2009 a 2026, fe wnaeth Playing Out CIC helpu i ehangu'r mudiad chwarae stryd wedi ei arwain gan drigolion, ledled y DU. Dros y blynyddoedd, mae miloedd o bobl wedi bod yn gweithio yn eu cymunedau eu hunain i wneud i sesiynau chwarae stryd ddigwydd ar gyfer plant.**

Ynghyd â'r sesiynau chwarae stryd, bu Playing Out yn ymgyrchu a lobïo am newidiadau tymor hwy i gefnogi hawl plant i chwarae'r tu allan. Sefydlwyd y tîm bychan, wedi ei leoli ym Mryste, gan rieni a'i lywio gan fwrdd o gyfarwyddwyr gwirfoddol.

Cafodd Playing Out, y sefydliad, ei ddirwyn i ben ar ddiwedd mis Mawrth 2026, ond mae'r mudiad yn parhau. Yng nghynhadledd *Playing Out and beyond* yng nghanol mis Mawrth, ymunodd Chwarae Cymru gyda'n cydweithwyr o Gaerdydd a Bro Morgannwg, dau awdurdod lleol sydd, ar hyn o bryd, yn cefnogi rhaglenni chwarae stryd dan arweiniad trigolion. Roedd yn ddiwrnod llawn ysbrydoliaeth. Mae clywed am gyflawniadau awdurdodau lleol mewn ardaloedd eraill o'r DU wedi ein hysgogi i barhau i gefnogi datblygiad strydoedd chwarae yma yng Nghymru.

Am wybodaeth ar strydoedd chwarae, darllenwch y cyhoeddiadau hyn gan Chwarae Cymru:

*Agor strydoedd ar gyfer chwarae* – pecyn cymorth ar gyfer awdurdodau lleol: **www.chwarae.cymru/agor-strydoedd-ar-gyfer-chwarae**

*Sut i drefnu sesiynau chwarae'r tu allan ar dy stryd* – canllaw i drigolion: **www.chwarae.cymru/sut-i-drefnu-sesiynau-chwaraer-tu-allan-ar-dy-stryd**

---

# Cylchgrawn *Chwarae dros Gymru*

**Diolch ichi am ddarllen y cylchgrawn hwn. Os nad ydych am dderbyn copi papur o'n cylchgrawn drwy'r post, cofiwch ddweud wrthym trwy e-bostio post@chwarae.cymru ac fe dynnwn eich enw oddi ar ein rhestr bostio.**

Byddwn yn dal i e-bostio rhifynnau newydd o *Chwarae dros Gymru* atoch ddwywaith y flwyddyn, felly wnewch chi ddim colli allan ar y newyddion a'r wybodaeth ddiweddaraf ar chwarae a gwaith chwarae.




Mae'r rhifyn hwn, a rhifynnau blaenorol, ar gael i'w darllen ar-lein ar ein gwefan: **www.chwarae.cymru/llyfrgell-adnoddau**

# Chwarae a chymdeithasu'n ystod misoedd y gaeaf

Comisiynydd Plant Cymru
Children's Commissioner for Wales

**Ym mis Chwefror 2026, canolbwyntiodd Mater y Mis Comisiynydd Plant Cymru ar chwarae yn ystod misoedd y gaeaf (rhwng mis Tachwedd a mis Mawrth).**

Gofynnodd y Comisiynydd Plant i blant ac arddegwyr am eu cyfleoedd i chwarae a chymdeithasu gyda'u ffrindiau – a sut y mae eu profiadau'n newid – yn ystod y gaeaf.

Gweithiodd Chwarae Cymru gyda'r Comisiynydd Plant ar yr arolwg hwn. Mae'n ehangu ar yr holiadur plant a ddefnyddiwyd i hysbysu adroddiad Chwarae Cymru, *Yr hyn mae plant yn ei ddweud am chwarae yng Nghymru: 2025*. Rydym yn edrych ymlaen at weld canlyniadau arolwg y Comisiynydd Plant am yr hyn sydd gan blant ac arddegwyr i'w ddweud am eu profiadau o chwarae'n ystod misoedd y gaeaf.

Bob mis, mae'r comisiynydd yn holi plant ac arddegwyr o bob cwr o Gymru ynghylch hawl penodol neu destun trafod amserol sy'n effeithio arnyn nhw. Am fwy o wybodaeth am Fater y Mis, ewch i:

**www.complantcymru.org.uk/adnoddau/mater-y-mis/**

# Datblygu'r gweithlu

## Dan y chwyddwydr...

**Ym mhob rhifyn, rydym yn siarad gyda gweithiwr proffesiynol o fyd chwarae a gwaith chwarae er mwyn cyflwyno cipolwg ar amrywiaeth y gweithlu a'r gwahanol swyddi sydd ar gael yn y sector. Ar gyfer y rhifyn hwn, fe siaradom gyda Cate Jordinson, Gweithiwr Cymorth. Mae Cate, sy'n weithiwr chwarae o Awstralia, ar daith astudio o amgylch y DU ac yng Nghaerdydd ar hyn o bryd.**

### Alli di ddweud ychydig wrthym am dy hunan a sut gychwynnaist ti ym maes gwaith chwarae/chwarae?

Fe gychwynnais fy ngyrfa gyda Gofal y Tu Allan i Oriau Ysgol yn Awstralia. Fe ddechreuais weithio gydag unigolion (ar draws wahanol swyddi) oedd ag anghenion ychwanegol a chefndiroedd o drawma, a sylweddolais fy mod eisiau deall sut oedd diwrnod plentyn yn edrych o'r dechrau i'r diwedd. Fe ddaeth gweithwyr chwarae i mewn i gynnal hyfforddiant gydag un o'r timau yr oeddwn i'n eu rheoli ac fe sylweddolais fy mod wedi bod yn defnyddio gwaith chwarae ers y cychwyn. Wedi hynny, fe wnes i blethu gwaith chwarae trwy bob rôl y gweithiais ynddynt.

### Beth mae dy rôl/rolau gwaith chwarae cyfredol yn ei olygu?

Ar hyn o bryd, rwy'n gweithio mewn Gofal Preswyl ar draws nifer o dai yng Nghaerdydd. Rwy'n weithiwr cymorth, a fy rôl i yw darparu gofal ar gyfer arddegwyr ac oedolion sydd ag anableddau deallusol. Mae hyn yn cynnwys unigolion sydd ag awtistiaeth yn bennaf.

### Beth yw agwedd bwysicaf neu fwyaf pleserus dy waith?

Fel gweithiwr chwarae mewn swyddogaeth gweithiwr cymorth, rwy'n teimlo fel cameleon! Yn ystod un diwrnod gwaith, efallai y byddaf yn gyd-droseddwr mewn cast chwareus, yn gefnogwr brwd pan nad ydyn nhw'n teimlo'n hyderus, yn athro i egluro rhywbeth, yn ffrind pan maen nhw angen cysur, yn llinyn sy'n cysylltu gwasanaethau eraill, yn llais iddyn nhw wrth eiriol drostynt, neu jest bod yno pan fyddwn ni'n ymlacio gyda'n gilydd ar y soffa.

### Sut mae cefndir mewn gwaith chwarae yn helpu wrth weithio gyda phlant?

Mae fy nghefndir mewn gwaith chwarae wir wedi dylanwadu ar y berthynas sydd gen i gyda'r plant, y bobl ifanc a'r oedolion yr ydw i'n gweithio gyda nhw. Un o nodweddion unigryw gweithwyr chwarae yw ein bod ni'n sicrhau chwarae teg mewn ffordd – ry'n ni'n creu hierarchaeth wastad ac yn datblygu ein perthnasau trwy ymddiriedaeth, tosturi, hyblygrwydd a chwarëusrwydd. Trwy gyflwyno'r math hon o berthynas i bobl mewn lleoliad gofal, fe allan nhw deimlo ymdeimlad o reolaeth, ymreolaeth, annibyniaeth, ac efallai am unwaith, nad oes gan rywun agenda cudd heblaw am fod yn bresennol a'u cefnogi. Mae gallu rhoi'r ymdeimlad yma o reolaeth yn ôl i rywun sydd â fawr ddim rheolaeth dros eu bywyd mor foddhaus.

### Beth wyt ti'n ei feddwl sy'n heriol am dy swydd?

Weithiau, fe fyddai'n ei chael yn heriol i weithio gyda staff sydd ddim yn deall gwaith chwarae. Fel gweithwyr chwarae, rydym yn llwyddo i greu perthnasau llawn ymddiriedaeth, cadarnhaol a chwareus gyda phobl heb orfodi hierarchaethau neu agendâu – ond dal i gael gweld y gorau ohonyn nhw.

Am enghreifftiau eraill o'n cyfweliadau Dan y chwyddwydr..., ewch i: **www.chwarae.cymru/gwaith-chwarae/datblygur-gweithlu**

## Fforwm Gweithwyr Chwarae

### 1 -2 Gorffennaf | Rhaeadr, Powys

**Mae'r Fforwm Gweithwyr Chwarae yn ddigwyddiad hyfforddiant gwaith chwarae preswyl, deuddydd o hyd dan gynfas sy'n rhoi cyfle i weithwyr chwarae ddysgu oddi wrth ei gilydd a hyfforddwyr gwaith chwarae profiadol.**

Disgwylir i'r cyfranogwyr wersylla a bydd angen iddynt ddod â'u hoffer gwersylla eu hunain. Darperir diodydd poeth, ciniawau, brecwast a swper.



### Pwy ddylai fynychu?

Anelir y digwyddiad at weithwyr chwarae, gweithwyr datblygu chwarae, rheolwyr gwaith chwarae, ymarferwyr ysgolion coedwig, gweithwyr gofal plant a phawb sydd am gynyddu eu sgiliau a'u gwybodaeth am waith chwarae, yn enwedig y tu allan.

Archebwch eich lle ar: **www.chwarae.cymru/digwyddiadau**

# Lansio Chwarae o Safon – ein marc ansawdd gwaith chwarae newydd

***Chwarae o Safon* yw marc ansawdd gwaith chwarae newydd Chwarae Cymru. Defnyddir y teitl Cymraeg yn y ddwy iaith.**

Sicrwydd ansawdd gwaith chwarae yw'r broses o edrych yn fanwl ar ymarfer gwaith chwarae er mwyn gwella ansawdd profiadau chwarae plant yn yr ystod eang o leoliadau ble bydd gwaith chwarae'n digwydd. Mae'n ehangu ar gymwysterau, hyfforddiant, profiad a dealltwriaeth gweithwyr chwarae o'r Egwyddorion Gwaith Chwarae. Mae'n helpu ymarferwyr i edrych yn feirniadol ar elfennau penodol o'u gwaith a sut y byddant yn sicrhau bod yr elfennau hyn yn cael eu cyflawni mewn egwyddor ac yn ymarferol.

Mae *Chwarae o Safon* yn ffurfioli'r broses hon fel y gall lleoliadau dystio bod eu hymarfer yn cydweddu gyda disgwyliadau ansawdd y sector. Mae'n fuddiol yn ei rinwedd ei hun ar gyfer staff, lleoliadau ac, wrth gwrs, y plant, ond mae hefyd yn arddangos i rieni, cyllidwyr, a chyrff cyfreithiol a rheoleiddiol bod y lleoliad yn un o safon.

Bwriedir i *Chwarae o Safon* gael ei ddefnyddio mewn lleoliadau gwaith chwarae anrheoleiddiedig, yn ogystal â lleoliadau a reoleiddir gan Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC). Mae'n berthnasol hefyd i'r bobl hynny sy'n ymwneud â gwaith chwarae mewn lleoliadau gwaith chwarae amhenodedig.

Dyfernir dau wahanol farc ansawdd gwaith chwarae, y naill yn canolbwyntio ar ymarfer a'r llall ar bolisi. Gall lleoliadau gwaith chwarae weithio tuag at un neu ddau o'r dyfarniadau hyn:

### 1. Chwarae o Safon – marc ansawdd ymarfer gwaith chwarae

Mae hwn yn asesu:

- profiadau chwarae plant
- yr amgylchedd gwaith chwarae.

Mae hwn yn addas ar gyfer lleoliadau sy'n defnyddio agwedd gwaith chwarae neu y mae eu staff wedi cwblhau hyfforddiant neu gymwysterau gwaith chwarae ac sydd am arddangos ymarfer gwaith chwarae da. Yn ogystal â lleoliadau gwaith chwarae penodedig, gall hefyd gynnwys darpariaeth gwaith ieuenctid, gofal plant, addysg, chwaraeon ac iechyd.

### 2. Chwarae o Safon – marc ansawdd polisi gwaith chwarae

Mae hwn yn asesu:

- polisi ac ymarfer gwaith chwarae
- y sefydliad gwaith chwarae.

Mae hwn yn addas ar gyfer lleoliadau y mae eu prif ddiben yn cynnwys cefnogi chwarae plant gan ddefnyddio agwedd gwaith chwarae. Mae hyn yn cynnwys lleoliadau a reoleiddir a rhai anrheoleiddiedig sy'n diffinio eu hunain fel un ai darpariaeth beripatetig neu rodwyr chwarae, meysydd chwarae antur, gofal plant y tu allan i oriau ysgol, gwaith chwarae mynediad agored neu chwarae stryd.




Mae'n canolbwyntio ar y polisïau, y gweithdrefnau a'r ethos sefydliadol sy'n cefnogi ymarfer gwaith chwarae. Er mwyn ennill y marc ansawdd hwn, bydd lleoliadau eisoes wedi derbyn y marc ansawdd ymarfer gwaith chwarae.

### Dechrau arni

Mae *Chwarae o Safon* yn cynnwys hunanasesiad yn ogystal ag asesiad allanol. Os oes gennych ddiddordeb ymgeisio am farc ansawdd *Chwarae o Safon*, gallwch lawrlwytho y canllaw a'r fframwaith hunanasesu am ddim o'n gwefan. Fydd ond angen i leoliadau dalu am asesiad allanol unwaith eu bod yn barod i asesydd edrych trwy eu tystiolaeth i ennill marc ansawdd *Chwarae o Safon*. Am y wybodaeth ddiweddaraf ar gostau, cysylltwch â ni ar **gweithlu@chwarae.cymru**

I ddysgu mwy ac i lawrlwytho *Chwarae o Safon*, ewch i'n gwefan: **www.chwarae.cymru/gwaith-chwarae/sicrhau-ansawdd**

# Datblygu'r gweithlu

## Y diweddaraf ar yr Adolygiad o Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol Gwaith Chwarae 2025/26

**Fel yr adroddwyd mewn rhifynnau blaenorol, mae Consortiwm NOS Gwaith Chwarae'r DU yn adolygu'r Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol (NOS) ar gyfer gwaith chwarae. Mae'r ymdrech gydweithredol hon yn cwmpasu'r pedair gwlad – Cymru, Yr Alban, Gogledd Iwerddon a Lloegr – ac fe'i cefnogir gan arbenigwyr y sector, y Cynghorau Addysg a Hyfforddiant Gwaith Chwarae (PETC England, PETC Northern Ireland, Playwork Scotland a PETC Cymru) a rhanddeiliaid ar draws y DU.**



Ers y rhifyn diwethaf, mae'r Grŵp Ysgrifennu NOS wedi drafftio safonau ar gyfer y rolau:

- Cynorthwyydd Gwaith Chwarae
- Gweithiwr Chwarae
- Rheolwr Gwaith Chwarae.

Y ffocws yw'r defnydd o ddull gwaith chwarae mewn amrywiaeth o wahanol leoliadau a bwriedir i'r safonau adlewyrchu'r swyddogaethau generig cyffredinol mewn gwaith chwarae. Ceir cyfres o safonau craidd ar gyfer pob rôl ynghyd ag unedau dewisol ychwanegol, a ddefnyddir i siapio hyfforddiant a chymwysterau.

Yn ogystal, rydym yn gobeithio y bydd cyflogwyr a rheolwyr yn defnyddio'r NOS newydd i'w helpu gyda drafftio swydd-ddisgrifiadau, arfarniadau a monitro ymarfer, gan fod y NOS yn adlewyrchu'r swyddogaethau gwaith chwarae ac wedi'u cytuno trwy'r DU.

Yn ystod Mawrth ac Ebrill 2026, cynhaliodd y consortiwm gyfres o weminarau ar gyfer rhanddeiliaid, ym mhob un o'r pedair gwlad, iddynt gael dweud eu dweud ar fersiwn drafft y NOS. Bwriad y gweminarau oedd rhannu trosolwg o'r cynnydd a wnaethpwyd ac i roi gwybodaeth ac adnoddau i gyfranogwyr allu ymateb i'r ymgynghoriad ysgrifenedig ar-lein. Rydym yn ddiolchgar iawn i bawb fynychodd y gweminarau ac a ymatebodd i'r ymgynghoriad ar-lein.

Dywedodd Martin King-Sheard, Cyfarwyddwr Cynorthwyol: Polisi a Strategaeth y Gweithlu yn Chwarae Cymru, sy'n arwain yr adolygiad:

> **“Mae wedi bod yn fraint symud yr adolygiad hwn o'r NOS gwaith chwarae yn ei flaen. Yn ogystal â drafftio cyfres o safonau fydd yn helpu i siapio hyfforddiant a chymwysterau dros y pum mlynedd nesaf, mae'r broses hon wedi sicrhau cydweithio a gwell cynllunio strategol ar gyfer datblygu'r gweithlu gwaith chwarae ar draws y pedair gwlad.”**

Nawr, bydd Consortiwm NOS Gwaith Chwarae'r DU a'r Grŵp Ysgrifennu NOS yn ystyried yr holl adborth ac yn cwblhau'r NOS. Bydd hyn yn cynnwys drafftio adroddiad ymgynghori i'w ryddhau. Cyhoeddir y NOS terfynol cyn haf 2026 yn Gymraeg a Saesneg.

Yn dilyn cyhoeddi'r NOS, bydd y Cyrff Dyfarnu/Sefydliadau Dyfarnu yn dechrau ar y broses o ail-fapio neu ail-ddatblygu eu cymwysterau gwaith chwarae.

I ddysgu mwy am broses datblygu'r NOS, ewch i:
**www.chwarae.cymru/gwaith-chwarae/datblygur-gweithlu**

PlayBoard Northern Ireland – Leading the Play Agenda | Play England – Freedom to play | Play Scotland | Chwarae Cymru Play Wales | Playwork Foundation

# Am y rhifyn hwn

**Gydag etholiadau'r Senedd ar y gorwel ym mis Mai 2026, mae Chwarae Cymru wedi cyhoeddi *Eiriol dros chwarae plant: maniffesto i Gymru.***




Rydym wedi rhannu ein maniffesto gyda phrif bleidiau gwleidyddol Cymru a gobeithiwn eu bod wedi ei ystyried yn ddefnyddiol wrth ddatblygu eu blaenoriaethau a'u hagendâu eu hunain ar gyfer Cymru. Mae ganddo'r potensial i ddylanwadu ar gamau gweithredu llywodraeth nesaf Cymru.

Yn ein maniffesto, mae Chwarae Cymru yn galw ar i lywodraeth nesaf Cymru i barhau â'i hymrwymiad hirsefydlog i flaenoriaethu chwarae. Gofynnwn i bob plaid wleidyddol ddal ati i gefnogi gweithredu'r Ddyletswydd Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae statudol.

Rydym yn annog y llywodraeth i wneud ymrwymiadau traws-bolisi i sicrhau bod cyfleoedd plant i chwarae'n cynyddu a gwella. Mae blaenoriaethu chwarae plant yn sicrhau buddiannau profedig i blant, teuluoedd a chymunedau, a hynny'n uniongyrchol ac yn y tymor hir.

> **"Mae blaenoriaethu chwarae plant yn sicrhau buddiannau profedig i blant, teuluoedd a chymunedau, a hynny'n uniongyrchol ac yn y tymor hir."**

Yn ein maniffesto – *Eiriol dros chwarae plant* – rydym yn galw am 15 peth, gan ganolbwyntio ar:

- **arweinyddiaeth strategol:** fel bod Cymru'n dal i arwain y ffordd wrth eiriol dros chwarae plant trwy bolisi, deddfu a rhaglenni ariannu.
- **cymdogaethau chwareus:** fel bod amodau'n gwella i wneud cymdogaethau a mannau cyhoeddus yn fwy cyfeillgar i chwarae gan ganiatáu i fwy o blant chwarae a chymdeithasu gyda ffrindiau'n agos i ble maen nhw'n byw.
- **ysgolion chwareus:** fel bod plant yn cael cyfleoedd i chwarae a symud mwy yn yr ysgol.
- **chwarae'n ystod adegau o ansicrwydd:** fel bod staff sy'n gweithio gyda phlant sy'n ddigartref, sy'n treulio amser yn yr ysbyty neu sy'n derbyn gofal mewn cyfleusterau preswyl yn deall pwysigrwydd chwarae a sut i'w gefnogi.

Mae'r rhifyn hwn o *Chwarae dros Gymru* yn cynnwys erthyglau gydag enghreifftiau o waith sy'n cael ei gynnal ar hyd a lled Cymru ar y pedair thema yn ein maniffesto. Rydym wedi cynnwys yr enghreifftiau hyn er mwyn dathlu'r gwaith da sy'n digwydd ar lefel leol, rhanbarthol a chenedlaethol a'n gobaith yw eu bod yn cynnig ysbrydoliaeth i bobl sy'n eiriol dros chwarae ble bynnag y maent – mewn cymdogaethau, lleoliadau neu'n datblygu polisïau. Mae etholiad Y Senedd yn rhoi cyfle inni gyd i dynnu sylw at ein gofynion ar gyfer chwarae plant yng Nghymru.

Mae ein maniffesto *Eiriol dros chwarae plant* ar gael i'w lawrlwytho o'n gwefan: **www.chwarae.cymru/publications_category/eiriol-dros-chwarae-plant**

Gweler hefyd dudalennau canol y cylchgrawn hwn am atodiad arbennig – *'Y Gymru yr ydw i am dyfu i fyny a chwarae ynddi': Maniffesto chwarae gan blant Cymru.* Rydym yn ddiolchgar i'r plant ar Lywodraeth Ysgol, Ysgol Gynradd Windsor Clive yng Nghaerdydd am eu cymorth wrth ddatblygu'r negeseuon pwysig hyn.

Mae'r atodiad arbennig ar gael i'w lawrlwytho o: **www.chwarae.cymru/llyfrgell-adnoddau**

# Arweinyddiaeth strategol

Llywodraeth Cymru
Welsh Government



**Yn ein maniffesto, mae Chwarae Cymru'n annog Llywodraeth nesaf Cymru i barhau â'i thraddodiad cryf o gefnogi hawl plant i chwarae, trwy bolisi, deddfu a rhaglenni ariannu.**

Mewn rhifynnau blaenorol o *Chwarae dros Gymru*, rydym wedi adrodd ar y cynnydd y mae Llywodraeth Cymru'n ei wneud ar ei gynllun gweithredu i gyflawni argymhellion yr Adolygiad Gweinidogol o Gyfleoedd Chwarae. Yma, rydym yn trafod sut y mae meysydd polisi a rhaglenni eraill y llywodraeth yn anelu i gefnogi chwarae.

## Canllawiau Teithio Llesol

Yn ystod gaeaf 2025-26, ymgynghorodd Llywodraeth Cymru ar y trydydd adolygiad o Ganllawiau'r Ddeddf Teithio Llesol. Dyma'r canllaw technegol ar gyfer cynllunio, blaenoriaethu, dylunio a chyflenwi seilwaith cerdded, olwynio a beicio yn unol â Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013.

Yn ogystal â chyfeirio at y cyd-destun deddfwriaethol a'r dyletswyddau statudol ar awdurdodau lleol o ran Asesiadau Digonolrwydd Chwarae a Chynlluniau Gweithredu, mae'r canllaw hefyd yn cynnwys pennod newydd ar greu lleoedd. Fel aelodau o Bartneriaeth Creu Lleoedd Cymru, fe groesawodd Chwarae Cymru ychwanegu'r bennod newydd hon yn ein hymateb i'r ymgynghoriad. Mae'r adran yn y bennod sy'n trafod chwarae'n dda a defnyddiol. Bydd yn cynorthwyo'r rheini sydd ynghlwm â theithio llesol, creu lleoedd a digonolrwydd chwarae ar lefel awdurdod lleol i weithio'n fwy effeithlon ac ar y cyd, gan gefnogi cyfleoedd plant i chwarae mewn cymdogaethau a mannau cyhoeddus.

Yn ein hymateb i'r ymgynghoriad, fe wnaethom rannu tystiolaeth o *Chwarae a lles*, ein hadolygiad llenyddiaeth i chwarae plant, polisi cymdeithasol ac ymarfer, sy'n pwysleisio bod chwarae'n cyfrannu at hapusrwydd uniongyrchol babanod, plant ac arddegwyr, gan eu helpu i deimlo'n rhan o'u cymdogaethau a'u cymunedau ehangach. Mae chwarae'n caniatáu i blant ddysgu am y byd o'u hamgylch, i greu cysylltiadau, a datblygu ymdeimlad o hunaniaeth ac o berthyn. Mae ystyried hyn fel rhan o Gynlluniau Teithio Llesol yn hynod o bwysig.

Fe wnaeth ein hymateb gymeradwyo hefyd gynhyrchu gwybodaeth ddefnyddiol sydd â'r potensial i wella meddwl cyfredol a chynllunio ar gyfer cyfleoedd i chwarae. Roeddem yn falch i weld bod y canllaw yn defnyddio'r term priodol 'cyfleoedd i chwarae'. Mae hyn nid yn unig yn ymateb i argymhellion yr Adolygiad Gweinidogol o Gyfleoedd Chwarae, ond bydd hefyd yn cefnogi newid mewn agwedd ynghylch ble, a phryd, y bydd plant yn chwarae. Mae ganddo'r potensial i gefnogi plant i fod yn fwy gweladwy mewn cymdogaethau a dilysu eu presenoldeb mewn mannau cyhoeddus.

## Pwysau Iach: Cymru Iach – Cynllun Cyflawni 2025-2027

Pwysau Iach: Cymru Iach yw strategaeth 10 mlynedd Llywodraeth Cymru i gefnogi pwysau iach ac fe'i cefnogir gan gyfres o gynlluniau cyflawni. Mae'r trydydd cynllun cyflawni yn nodi cyfres o themâu, nodau a chamau gweithredu i helpu i ganolbwyntio ar yr elfennau lle gall Llywodraeth Cymru a'u partneriaid sicrhau'r newid mwyaf gyda'i gilydd. Wrth wraidd y cynllun mae cefnogi plant a phobl ifanc.

Mae'r cynllun yn nodi ei bod yn ffaith ddiamau bod chwarae actif yn gwella ffitrwydd ac iechyd plentyn, yn helpu i wella ei iechyd meddwl a'i ddatblygiad gwybyddol yn ogystal â meithrin hyder a gwella sgiliau cymdeithasol. Chwarae actif yn yr awyr agored y gellir ei ddosbarthu fel ymarfer corff cymedrol i egnïol yw'r peth gorau ar gyfer amddiffyn rhag y risg o ordewdra. Gan gyfeirio at ganllawiau gweithgarwch corfforol Prif Swyddogion Meddygol y DU, mae'n amlygu

hefyd bod cynyddu hyd gweithgarwch corfforol a threulio llai o amser yn eistedd yn sicrhau buddiannau iechyd meddwl cadarnhaol.

Fel aelod o weithgor Bywydau Egnïol y cynllun, mae Chwarae Cymru wedi pwysleisio'r dystiolaeth a drafodwyd yn *Chwarae a lles* – bod caniatáu i blant ddewis sut y byddan nhw'n chwarae yn gysylltiedig â lles gwell. Mae chwarae'r tu allan yn darparu cyfleoedd ar gyfer datblygu cydsymud a balans, lleihau blinder, straen ac iselder a gwell hunan-barch a gweithredu gwybyddol.

Ymhlith nodau'r cynllun i gefnogi babanod, plant ac arddegwyr mae'r uchelgais y gall pob plentyn yng Nghymru chwarae'r tu allan bob dydd. Yng Ngham Gweithredu 18 o'r cynllun, mae Llywodraeth Cymru'n datgan y bydd yn cefnogi amgylcheddau chwarae egnïol hygyrch, fforddiadwy sy'n diwallu anghenion datblygiadol plant ifanc.

Mae Cam Gweithredu 18 yn ailddatgan bod chwarae'n ganolog i les plant a bod gallu chwarae a bod yn gorfforol egnïol yn yr awyr agored yn helpu plant i deimlo'n rhan o'u cymdogaethau a'u cymunedau ehangach. Mae'r naratif ar gyfer Cam Gweithredu 18 yn cyfeirio at Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010, sy'n gosod dyletswydd statudol ar awdurdodau lleol i asesu ac, cyn belled ag sy'n rhesymol ymarferol, i sicrhau cyfleoedd digonol i blant chwarae yn eu hardaloedd.

Yn ogystal, mae Cam Gweithredu 18 yn pwysleisio rôl bwysig ysgolion a staff ysgol, gan nodi y gallant hyrwyddo manteision chwarae gyda rhieni. Mae'n nodi bod darparu cyfleoedd ar gyfer cysylltiadau gyda'r gymuned ehangach yn agwedd allweddol o bolisi a chanllawiau Ysgolion Bro. Mae ymgorffori chwarae yn y canllawiau'n cwmpasu tri maes:

- ymgysylltu â rhieni trwy rôl y swyddog ymgysylltu â theuluoedd i hyrwyddo buddiannau chwarae ac annog rhyngweithio chwareus y plentyn neu'r teulu
- ysgolion yn cysylltu gyda sefydliadau chwarae a grwpiau cymunedol i greu cysylltiadau gyda'r hyn a gynigir yn y gymuned eisoes
- y potensial i ysgolion ddarparu gofod chwarae y tu allan i'r diwrnod ysgol drwy agor tiroedd yr ysgol.

## Cefnogaeth gan gyrff cyhoeddus

Mae maniffesto Chwarae Cymru'n gofyn hefyd ar i Lywodraeth nesaf Cymru gefnogi Bil Pob Plentyn, fydd yn sicrhau bod cyrff cyhoeddus yn cefnogi pob plentyn yng Nghymru. Yn ogystal, bydd Bil Pob Plentyn yn atgyfnerthu hawl statudol plant i chwarae, gan ehangu dyletswyddau digonolrwydd chwarae i gyrff cyhoeddus, fel Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Mae *Y Dechrau Gorau mewn Bywyd: Fframwaith Gweithredu ar gyfer y Blynyddoedd Cynnar*, a gyhoeddwyd gan Iechyd Cyhoeddus Cymru, yn cynnwys saith bloc adeiladu thematig sy'n manylu ar elfennau penodol sydd bwysicaf i fabanod, plant ifanc a'u teuluoedd. Mae mynediad i chwarae, dysgu a gofal o ansawdd uchel yn un o'r blociau adeiladu hyn.

Roedd Chwarae Cymru'n rhan o weithgor a sefydlwyd i ddatblygu'r fframwaith. Dynododd y gweithgor gamau gweithredu lleol, rhanbarthol a chenedlaethol fydd yn cyfrannu at gael mynediad i chwarae, dysgu a gofal o ansawdd uchel:

| Lleol | Rhanbarthol | Cenedlaethol |
|---|---|---|
| Ystod o opsiynau chwarae cynnar, dysgu a gofal fforddiadwy o ansawdd uchel sy'n diwallu anghenion pob baban a phlentyn ifanc, gan gynnwys y rhai sy'n dysgu'r iaith Gymraeg a'r rhai sydd ag anghenion ychwanegol.<br><br>Gwybodaeth hawdd ei defnyddio a chyfredol am gyfleoedd chwarae lleol. | Mae dulliau cydlynol i gefnogi gwasanaethau a grwpiau lleol yn creu a chynnal cymdogaethau lle mae cyfle i chwarae.<br><br>Cydweithio a chydlynu rhanbarthol i sicrhau darpariaeth chwarae o ansawdd da a galluogi mynediad teg at ystod amrywiol o gyfleoedd ar gyfer chwarae a chymdeithasu i bob baban, plentyn ifanc a theulu.<br><br>Dulliau sy'n seiliedig ar asedau o fodloni gofynion digonolrwydd cyfleoedd chwarae sy'n cydnabod amrywiaeth y lleoedd y mae babanod, plant ifanc a theuluoedd yn mwynhau chwarae a chymdeithasu ynddynt. | Canllawiau a gwybodaeth ar bwysigrwydd chwarae a sut y gall gweithwyr proffesiynol, gwasanaethau, ysgolion, cymunedau a theuluoedd gefnogi chwarae babanod a phlant.<br><br>Polisi trawslywodraethol sy'n cefnogi'r gwaith o greu amgylcheddau chwareus a chynhwysol i fabanod, plant ifanc a theuluoedd.<br><br>Trefniadau llywodraethu, atebolrwydd a monitro clir ar gyfer cyflawni gofynion digonolrwydd cyfleoedd chwarae. |

**Mae'r enghreifftiau hyn yn arddangos yn gwbl glir ymrwymiad Llywodraeth Cymru i gefnogi chwarae plant. Rydym yn annog llywodraeth nesaf Cymru i wneud ymrwymiadau traws-bolisi i sicrhau bod cyfleoedd plant i chwarae'n cynyddu a gwella. Mae blaenoriaethu chwarae plant yn sicrhau buddiannau profedig i blant, teuluoedd a chymunedau, a hynny'n uniongyrchol ac yn y tymor hir.**

# Cymdogaethau chwareus

**Yn ein maniffesto, mae Chwarae Cymru'n annog Llywodraeth nesaf Cymru i sicrhau y gall plant o bob oed dyfu i fyny mewn cymdogaethau ble maent yn teimlo ymdeimlad o berthyn a chael cyfleoedd i chwarae a chymdeithasu gyda ffrindiau.**

Mae ein galwadau'n cynnwys:

- **Bod egwyddor chwarae'n cael ei gydnabod mewn canllawiau sy'n ymwneud â datblygu a defnyddio tir**
- **Cefnogaeth ar gyfer darpariaeth gwaith chwarae wedi ei lleoli yn y gymuned.**

Yma rydym yn rhannu dwy enghraifft llawn ysbrydoliaeth – o Ferthyr Tudful a Chasnewydd – o brosiectau sy'n cefnogi darpariaeth chwarae wedi ei lleoli yn y gymuned.




## Play Pod Chwarae

Fel rhan o'u Cynllun Gweithredu Digonolrwydd Chwarae, mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful wedi datblygu'r prosiect Play Pod Chwarae i ddarparu adnoddau ac offer i ddarparwyr chwarae wedi eu lleoli yn y gymuned. Julia Lewis, y Swyddog Chwarae, sy'n dweud mwy wrthym.

Mae'r prosiect Play Pod Chwarae yn cael ei redeg allan o uned storio ffrâm bren wedi ei greu'n arbennig, gyda drws dur ac ystafell allanol atodol. Mae wedi ei stocio gydag adnoddau ac offer chwarae – yn fawr a bach – i sefydliadau ac ysgolion eu benthyca, unwaith eu bod wedi ymaelodi.

Mae'r pod a'i gynnwys yn lleihau'r risg a'r straen ar ddarparwyr chwarae cymunedol elusennol allai fod yn cael trafferth gyda llif arian. Mae hefyd yn annog darparwyr i fod yn fwy arbrofol gyda benthyca offer, a rhoi tro ar eitemau newydd neu anghyfarwydd.

Mae'r prosiect yn aelod o Benthyg Cymru ac mae'n gweithredu ar fodel aelodaeth. Bydd aelodau'n talu tâl blynyddol a gallant fenthyca unrhyw offer ac adnoddau, mor aml ag y mynnant, trwy system archebu ar-lein. Codir gordal dim ond os na ddychwelir offer neu adnoddau, neu os cânt eu dychwelyd wedi eu difrodi. Ceir cyfle hefyd i dalu tâl ychwanegol am ddanfon eitemau mawr a hwyluso gweithdai.

Datblygodd y prosiect Play Pod Chwarae fel syniad i fynd i'r afael â thair problem o safbwynt gwaith chwarae a chynaladwyedd:

- llai a llai o gyllid ar gael ar gyfer darpariaeth chwarae ac addysg awyr agored
- diffyg cydraddoldeb wrth gael mynediad i adnoddau ar draws darparwyr chwarae
- eitemau defnyddiol yn cael eu hanfon i gladdfeydd sbwriel.

Gan fod y Play Pod Chwarae yn llyfrgell broffesiynol o bethau, mae Benthyg Cymru wedi darparu mentora ar sut i sefydlu a rhedeg y pod. Yn ogystal, mae Egin, rhaglen i fynd i'r afael â newid hinsawdd, wedi darparu cefnogaeth gan fod y prosiect yn cynorthwyo i leihau'r nifer o eitemau ailddefnyddiadwy a anfonir i gladdfeydd sbwriel.

O ganlyniad i gydweithredu rhwng cwmni datblygu cymunedol ac adran chwarae a pharciau Cyngor Merthyr, tyfodd y cynllun peilot drwy greu lleoliad diogel a chanolog yng Nghlwb Crown. Yma gall gweithwyr proffesiynol o feysydd gwaith chwarae, gwaith ieuenctid ac addysg archebu a benthyca o ystod eang iawn o adnoddau chwarae a rhannau rhydd, ar gyfer amrywiaeth o gyfleoedd chwarae, fel:

- chwarae â thân – pyrograffeg, cynnau tân, offer coginio
- chwarae gyda dŵr – llithren ddŵr, chwistrellau dŵr, wal ddŵr
- chwarae â phridd – cegin fwd, siglenni, *'slacklines'*, adeiladu cuddfannau, eitemau cwrs rhwystrau
- chwarae gyda'r gwynt – seddau troelli, gemau taflu, hamogau fertigol.

Rydym wedi cynnwys nifer o eitemau a ddefnyddir mewn ysgolion coedwig ac er mwyn ehangu mynediad ar gyfer cyfranogwyr niwroamrywiol yn ogystal â nifer o weithgareddau cymunedol i annog gwaith grŵp. Mae partneriaid hefyd wedi cyfrannu at y stoc: er enghraifft, cyfrannodd Heini Merthyr Tudful offer chwaraeon a darparodd Cadwch Gymru'n Daclus becynnau casglu sbwriel.

Mae sefydliadau lleol yn dechrau ymuno yn y cynllun hefyd ac mae rhai wedi eu hysgogi i gyfrannu eitemau i'r pod. Dywedodd Louise, o Hyb Cymunedol Twyn,

> **"mae'r Pod Chwarae'n lleihau costau storio eitemau mwy o faint sy'n cael eu defnyddio'n anaml. Mae rhannu offer yn darparu gwell mynediad i chwarae i'r plant yr ydym yn gweithio gyda nhw. Rydym yn gobeithio y gall sefydliadau, trwy geisiadau ar y cyd, weithio gyda'i gilydd i brynu eitemau mwy o faint o ansawdd gwell y gallwn ni gyd eu defnyddio."**

Mae gennym uchelgeisiau ar gyfer y dyfodol. Er enghraifft, rydym yn gobeithio edrych ar greu podiau ategol neu symudol i gynyddu mynediad. Fel rhan o'r prosiect, byddwn hefyd yn datblygu a throsglwyddo sesiynau addysg, cyfranogi ac atgyweirio yn y dyfodol. Ein gobaith yw bod y peilot yn arddangos y gall y model hwn weithio ac y gall ardaloedd eraill fabwysiadu'r syniad.

## Gofod chwarae naturiol 'Mendalgief Rec'

Fel yr adroddwyd eisoes mewn erthygl nodwedd ar gymunedau chwareus, cafodd Chwarae Cymru ei gomisiynu gan Pobl Group i gynnal archwiliad chwarae ym Mhilgwenlli, Casnewydd. Paul Macey, sy'n cydlynu Uwchgynllun Pilgwenlli, sy'n sôn wrthym am ddatblygiad lleol cyffrous sy'n siapio a hysbysu datblygiad y cynllun.



Gofod cyn ei ddatblygu

Mae'r archwiliad wir wedi cael effaith cadarnhaol. Mae wedi helpu i siapio sut y byddwn yn symud ymlaen ac mae wedi cael derbyniad gwresog iawn yn lleol. Briff yr archwiliad oedd darparu gwybodaeth i gefnogi datblygiad mannau chwaraeadwy ar draws pum ardal yn y gymuned. Fe wnaeth yr archwiliad gynnwys:

- teithiau cerdded cymunedol tywysedig ac annibynnol
- ymchwil wrth ddesg, yn cynnwys darllen adroddiadau cymunedol
- gweithdai gyda'r plant
- ymgysylltu gyda rhieni
- cyfarfodydd gyda sefydliadau ac ymarferwyr lleol
- dadansoddiad o'r gymuned wedi ei hysbysu gan rieni.



Gofod chwarae ar ôl ei ddatblygu

Nid oedd 'Mendalgief Rec' yn un o'r ardaloedd gwreiddiol a glustnodwyd ar gyfer ei datblygu, ond fe wnaeth ymgysylltu gyda thrigolion lleol ein harwain i'r cyfeiriad hwnnw. Wedi ei wasgu rhwng tai traddodiadol a datblygiadau tai newydd ac ysgol, roedd y gofod hwn yn ymddangos yn berffaith ar gyfer prosiect arddangos ble roedd y ffocws ar ddylunio tirwedd, yn hytrach nac ar osod offer chwarae.

Mae man chwarae 'Mendalgief Rec' yn ychwanegu gwerth i'r gwaith sylweddol a wnaethpwyd ym Mharc y Pill, sef y gofod gwyrdd mwyaf yn yr ardal. Pwysleisiodd yr archwiliad chwarae bwysigrwydd y gofod hwn i'r gymuned leol. Mae ffocws y gwaith wedi ei seilio ar ofynion plant a theuluoedd lleol trwy nifer o weithgareddau ymgysylltu cymunedol, yr oedd rhai ohonynt yn rhan o'r archwiliad. Dywedodd y plant a'r rhieni, fel ei gilydd, y dylai'r gofod hwn fod yn flaenoriaeth ar gyfer ei gwneud hi'n haws i gael hyd i ofod i chwarae'n lleol. Mae gwaith i gyfoethogi'r 'Rec' hefyd yn cynnwys llwybr Teithio Llesol, llwybr natur ac ardaloedd chwarae wedi eu hailwampio ar ymylon y caeau rygbi a phêl-droed, a Chanolfan Mileniwm Pill.

Wrth drafod datblygu 'Mendalgief Rec', dywedodd Saera, rhiant tri o blant oedran ysgol gynradd:

> **"Roedd yr ardal yn anneniadol ac wedi treulio ond mae wedi ei thrawsnewid erbyn hyn. Mae'r offer yn ddiddorol a deniadol ac mae'n agor y gofod yn gyffredinol ar gyfer chwarae. Mae'r ffaith ei bod ger y ddwy ysgol yn fantais fawr. Mae fy mhlant wrth eu bodd yn chwarae yno ar ôl ysgol ac ar y penwythnosau ac mae'n gwneud gweddill y parc yn fwy hygyrch."**

Mae datblygu'r ardaloedd ar gyfer chwarae yn rhan o'r uwchgynllun aml-asiantaeth parhaus ac esblygol ym Mhilgwenlli, sydd wedi bod yn digwydd dros y tair blynedd diwethaf. Mae'r fenter yn cefnogi gwireddu'r weledigaeth gymunedol, sy'n cynnwys cynyddu cyfleusterau awyr agored ar gyfer plant ac arddegwyr, gan wella gofodau gwyrdd gyda ffocws ar chwarae naturiol a datblygu gofodau chwarae dros dro ar draws yr ardal.

# Ysgolion chwareus

**Yn ein maniffesto – *Eiriol dros chwarae plant* – mae Chwarae Cymru'n annog Llywodraeth nesaf Cymru i sicrhau ei bod yn talu sylw i chwarae mewn ysgolion ar gyfer plant o bob oed. Mae ein galwadau'n cynnwys: ei gwneud hi'n orfodol i'r diwrnod ysgol gynnwys isafswm penodol o amser chwarae.**


© Tîm Chwarae Bro Morgannwg

Mae plant yn chwareus beth bynnag fo'u hoed, ac mae plant hŷn – yn cynnwys arddegwyr – angen cyfleoedd i chwarae, cymdeithasu a chwrdd â'u ffrindiau. Yn union fel plant iau, mae plant hŷn angen amser, lle a rhyddid i chwarae. Mae hyn yn cynnwys cael cyfleoedd ar gyfer profiadau chwareus yn ystod amser egwyl yn yr ysgol.

Yma, mae Julia Sky o Dîm Datblygu Chwarae Bro Morgannwg, yn trafod eu Prosiect Chwarae'r Tu Allan a Lles yn Ysgol Uwchradd Whitmore yn Y Barri. Mae Tîm Chwarae'r Fro wedi bod yn gweithio'n agos gyda Chydlynydd Lles a Chynhwysiant Ysgol Uwchradd Whitmore i drosglwyddo rhaglen chwarae a lles 12-wythnos o hyd ar gyfer disgyblion Blwyddyn 7.

Mae'r prosiect bellach yn ei drydedd flwyddyn ac mae'n anelu i wella lles a hyder disgyblion yn yr awyr agored ar gyfer grŵp o ddisgyblion a glustnodwyd o Flwyddyn 7, trwy drosglwyddo chwe sesiwn lles wythnosol wedi eu dilyn gan chwe sesiwn wythnosol yn chwarae'r tu allan. Mae'r prosiect yn cynnig cyfleoedd gwirfoddoli i ddisgyblion Blwyddyn 8 a gymerodd ran ym mhrosiect y flwyddyn flaenorol, yn ogystal â disgyblion hŷn sydd wedi derbyn rolau fel Llysgenhadon Chwarae a Mentoriaid Lles.

Holly Morgan, y Cydlynydd Lles a Chynhwysiant, sy'n trosglwyddo chwe wythnos gyntaf y prosiect:

> **"Fe wnaethom ni ganolbwyntio ar bwysigrwydd cwsg, bwyd a dŵr a hunanofal. Fe ddysgom strategaethau i'n helpu i reoleiddio a thawelu ein cyrff trwy fwyd ac ymlacio. Yn ogystal, fe wnaeth nyrs a chwnselydd yr ysgol ddod draw i siarad gyda ni am sut y gallan nhw ein cefnogi ni.**
>
> **Yna, fe fuon ni'n ddigon ffodus i weithio gyda Thîm Chwarae'r Fro ar brosiect Lles Awyr Agored 6-wythnos o hyd. Mae Jo, Julia a Ceri wedi dangos inni sut i weithio fel tîm, chwarae gemau hwyliog, adeiladu cuddfannau, creu modelau o glai, clymu clymau, creu fframiau lluniau a chael hwyl!"**

Oherwydd llwyddiant y prosiect, gosodwyd Ciwb Chwarae ar dir yr ysgol ar gyfer chwarae yn ystod y diwrnod ysgol a'r tu allan i oriau ysgol. Mae'r Ciwb Chwarae yn gynhwysydd mawr y gellir ei gloi ar gyfer storio offer chwarae ac adnoddau chwarae sy'n rhannau rhydd, fel ffabrig, bwcedi, bocsys, rhaffau, teiars, pren a deunyddiau sgrap o bob math.

Yn ddiweddar, mae pump ar hugain o ddisgyblion o Ysgol Uwchradd Whitmore wedi cymryd rhan yn *Dewch inni siarad am chwarae*, cwrs hyfforddiant wedi'i ardystio gan Chwarae Cymru sydd wedi ei ddylunio fel cyflwyniad i chwarae a gwaith chwarae. Y disgyblion hyn yw Llysgenhadon Chwarae cyntaf Bro Morgannwg, sy'n gyfrifol am eiriol dros chwarae yn eu hysgol a thu hwnt.

Wedi iddynt gymryd rhan yn y Prosiect Chwarae'r Tu Allan a Lles, mae disgyblion yn yr ysgol wedi mynd ymlaen i astudio ar gyfer cymhwyster Dyfarniad Lefel 2 Agored Cymru mewn Ymarfer Gwaith Chwarae (L2APP). Mae'r cwrs hwn yn cynnig cyflwyniad cyffredinol i waith chwarae. Mae'r prosiect, yr hyfforddiant a'r cymhwyster wedi helpu'r disgyblion i symud ymlaen gyda'u siwrnai gwaith chwarae.

Dyma oedd gan ddisgyblion Blwyddyn 7 i'w ddweud am eu profiadau:

**'Roedd Lles yn wych, fe wnaeth imi ddod allan o fy nghragen.'**

**'Roeddwn i wrth fy modd yn chwarae gyda'r Tîm Chwarae.'**

**'Tynnu'r gelyn ac adeiladu cuddfannau oedd fy hoff bethau.'**

**'Roedd jest bod y tu allan yn hwyl.'**

**'Roeddwn i'n hoffi chwarae gemau a'r sialciau.'**

**'Myfyrio wnes i fwynhau fwyaf.'**

# Cefnogi ymddygiad amser chwarae

Mae Chwarae Cymru wedi sylwi ar gynnydd mewn ymholiadau gan rieni sy'n pryderu ynghylch tynnu amser chwarae'n ôl oddi wrth eu plant. Yn ein maniffesto, mae Chwarae Cymru hefyd yn annog Llywodraeth nesaf Cymru:

**i fynd ati'n rhagweithiol i hyrwyddo *Fframwaith ar sefydlu dull ysgol gyfan ar gyfer llesiant emosiynol a meddyliol* Llywodraeth Cymru, sy'n datgan yn gwbl glir na ddylid dal chwarae'n ôl oddi wrth blant yn yr ysgol fel math o gosb.**

Gyda diolch i'n cyd-awduron ar y papur sefyllfa *Children's right to Play,* a gyhoeddwyd gan Adran Seicoleg Addysg a Phlant Cymdeithas Seicolegol Prydain, dyma rannu rhywfaint o wybodaeth a syniadau i ysgolion.




## Pethau i'w hystyried:

- Ydi'r ysgol wedi asesu'r cyfleoedd chwarae sydd ar gael i sicrhau eu bod yn cyflawni anghenion y plant?
- Ydi'r ysgol wedi gweithio gyda'r plant i ddyfeisio rheolau amser chwarae cryno a hawdd i'w deall sy'n cael eu deall yn gwbl eglur gan bawb?
- Ydi'r rheolau a'r gweithgareddau'n hybu mathau penodol o ymddygiadau cadarnhaol, megis:
  - o cyfathrebu
  - o datrys gwrthdaro geiriol
  - o deall gofod personol
  - o cydweithio?
- Ydi'r plant a'r staff i gyd yn deall canlyniadau peidio glynu at reolau amser chwarae?
- Os yw amser chwarae'n cael ei dynnu'n ôl oherwydd ymddygiad anodd neu beryglus ar y buarth chwarae, a ellir sicrhau hawl y plentyn i chwarae trwy unrhyw fodd arall, fel gweithgareddau unigol tymor byr y tu allan neu dan do sy'n arwain at gynyddu sgiliau, gyda'r nod o sicrhau mynediad i'r buarth chwarae yn y dyfodol?

Mae ymchwil[1] yn awgrymu bod angen dull ysgol gyfan tuag at amser chwarae a bod angen cynllunio ar gyfer amserau chwarae a'u hystyried fel rhannau eraill o'r diwrnod ysgol. Rydym yn argymell dull ysgol gyfan sy'n ymgorffori'r strategaethau canlynol:

- Dysgu'r sgiliau y mae plant eu hangen (er enghraifft sgiliau pendantrwydd, sgiliau sy'n ymwneud â chyfeillgarwch, rheoli emosiynau ac empathi, a sgiliau rhannu a chydweithredu) trwy wersi, gwasanaethau ysgol neu ymyraethau. Gall staff ar y buarth chwarae gadarnhau a modelu'r sgiliau hyn yn eu cyd-destun.
- Darparu ffyrdd i'r plant ddatrys anghydfodau. Hyfforddi staff y buarth chwarae a'r plant i gyfryngu anghydfodau. Dysgu sgiliau datrys gwrthdaro i bob plentyn trwy wersi, gwasanaethau ysgol, modelu, neu chwarae rôl fel rhan o drosglwyddo'r cwricwlwm.
- Gofyn i staff y buarth chwarae atgyfnerthu a thalu sylw i ymddygiad cadarnhaol, siarad gyda'r plant a chreu ethos chwareus.
- Hybu ymdeimlad o berthyn drwy gefnogi'r plant hynny sydd angen cymorth ychwanegol i ymuno yn y chwarae a darparu ffyrdd i'r plant gael hyd i rywun i chwarae gyda nhw (er enghraifft, chwarae rhannau rhydd y gall unrhyw blentyn ymuno ynddo).
- Darparu gemau a gweithgareddau sydd ddim yn gwbl gystadleuol neu seiliedig ar chwaraeon a darparu gweithgareddau sy'n hybu chwarae'n rhydd.
- Darparu gemau sydd wedi'u hysbysu gan syniadau'r disgyblion a sicrhau bod pob plentyn yn gwybod sut i chwarae'r gemau. Annog yr athrawon i feddwl am a chytuno ar lond llaw o gemau buarth chwarae traddodiadol, gemau sgipio, gemau llafarganu a gemau clapio y gellir eu dysgu mewn gwersi addysg gorfforol neu fel rhan o wers hanes, yn ystod y tymor. Yna, gan y bydd y plant yn gwybod y gemau o'r gwersi a gafwyd, byddant yn barod i'w chwarae ar y buarth heb fawr ddim ymyrraeth.

Am fwy o wybodaeth ar bolisi ac ymarfer i helpu cymunedau ysgolion i fabwysiadu dull ysgol gyfan tuag at gefnogi hawl plant i chwarae, darllenwch ein canllaw *Ysgol chwarae-gyfeillgar*: **www.chwarae.cymru/ysgol-chwarae-gyfeillgar**

[1] Bristow, S. ac Atkinson, C. (2020) Child-led research investigating social, emotional and mental health and wellbeing aspects of playtime, *Educational & Child Psychology*.

# Chwarae'n ystod adegau o ansicrwydd



**Mae cyfleoedd i chwarae'n arbennig o fuddiol yn ystod adegau o ansicrwydd. Mae llawer o blant yng Nghymru wedi'u dadleoli o ganlyniad i ddigartrefedd neu dreulio amser yn yr ysbyty. Yn aml, gall cyfleoedd i chwarae gael eu hanghofio yn y lleoliadau hyn. Yma, rydym yn adrodd ar brosiectau cyfredol i gefnogi cyfleoedd plant i chwarae yn y mannau hyn.**

## Prosiect chwarae i blant mewn llety dros dro

Oherwydd ein bod yn pryderu am y nifer cynyddol o blant sy'n byw mewn llety dros dro, fel llety gwely a brecwast a gwestai, mae Chwarae Cymru wedi datblygu prosiect i ddynodi'r cyfleoedd a'r heriau o ddarparu cyfleoedd i chwarae yn y lleoliadau hyn.

Fe wnaethom weithio gyda'n rhwydwaith o swyddogion chwarae mewn pedwar awdurdod lleol i ddeall y cyfyngiadau a'r cyfleoedd sydd ar gael mewn llety dros dro. Fe wnaethom greu a chyflenwi pecynnau chwarae oedd yn cynnwys syniadau digost a syml i deuluoedd gefnogi chwarae mewn gofod byw cyfyng. Fe wnaethom hefyd ddarparu darnau bach o offer a syniadau i gefnogi gweithgarwch corfforol mewn gofodau bychain a chyflenwi bocsys o ddeunyddiau celf a chrefft i annog chwarae creadigol.

Bwriad yr eitemau bychain a syml hyn oedd galluogi timau chwarae i ymgysylltu â rhieni i glywed mwy am eu profiad bywyd o gefnogi chwarae plant mewn llety dros dro. Fe wnaeth y prosiect ein helpu hefyd i ddysgu am yr heriau i swyddogion tai a darparwyr llety dros dro.

Mae ein prosiect wedi amlygu bod plant sy'n byw mewn llety dros dro yn aml yn wynebu amgylcheddau anniogel neu anaddas i chwarae. Mae ein hymgysylltiad gyda rhieni a theuluoedd yn dynodi bod gan blant fawr ddim mynediad i fannau diogel, glân, neu ddiwylliannol briodol i chwarae, a'u bod yn aml yn cael eu hynysu oddi wrth ddarpariaeth wedi ei leoli yn y gymuned.

Er mai prosiect graddfa fechan oedd hwn, rydym yn gobeithio y bydd y dysg ohono'n ein galluogi i weithio gydag ymarferwyr y gellir ymddiried ynddynt a theuluoedd i gyd-greu offeryn i ymarferwyr (er enghraifft adnodd hyfforddi, pecyn cymorth neu daflen wybodaeth), sy'n seiliedig ar brofiad bywyd.

Y nod yw gwella sut y mae gwasanaethau'n cefnogi chwarae mewn cyd-destunau incwm isel a rhai sydd wedi eu heffeithio gan ddadleoliad.

> **"Dwi'n teimlo fel fy mod wastad yn dweud wrth fy mhlant i fod yn dawel. Weithiau pan fyddan nhw'n chwarae, maen nhw'n swnllyd, a dydw i ddim am gael pryd o dafod am adael i'r plant fod yn swnllyd neu'n boitshlyd."**

> **"Dydw i ddim yn gwybod ble i fynd a fy mhlant i chwarae. Mae'r ffyrdd yn brysur a 'does gen i ddim arian i fynd a nhw i glybiau neu i fannau i chwarae."**

> **"Byddwn i'n hoffi pe bae rhywle i chwarae'r tu allan. Mae mor anodd i fy mab ollwng stêm a 'does fawr ddim cyfle iddo chwarae gyda phlant eraill."**

## Chwarae mewn gofal iechyd

Yn ein maniffesto, mae Chwarae Cymru yn pwysleisio'r angen am gyfeiriad polisi strategol oddi wrth y rheini sy'n cefnogi lles plant ac arddegwyr sy'n gleifion mewn ysbytai neu leoliadau cymunedol, megis hosbisau plant.

Mae chwarae'n hanfodol i iechyd a hapusrwydd plant, a dylid rhoi blaenoriaeth iddo pan fydd plant yn sâl. Dylai pob plentyn sy'n aros mewn ysbyty neu sy'n derbyn gofal iechyd tymor hir gael mynediad dyddiol i wasanaethau

chwarae iechyd. Mae rhaid i'r pwyslais fod ar ymarfer diogel a chyfoethogi profiad y claf sy'n ystyried iechyd a lles uniongyrchol a thymor hir y plant ynghyd â'u hanghenion gofal iechyd.

Yn Lloegr, cynullwyd Tasglu ar Chwarae Plant mewn Gofal Iechyd gan Starlight (yr elusen sy'n gweithio i roi chwarae wrth galon gofal iechyd plant) a GIG Lloegr, ac mewn cydweithrediad â'r Society of Health Play Specialists (SOHPS). Datblygodd y tasglu'r pecyn cymorth *Play well*, sydd â thair elfen iddo:

1. Canllawiau ar gyfer comisiynu a dylunio gwasanaethau chwarae iechyd
2. Safonau argymelledig ar gyfer gwasanaethau chwarae iechyd
3. Rhestr wirio ansawdd ar gyfer gwasanaethau chwarae iechyd i yrru gwelliannau.

Mae Chwarae Cymru wedi bod yn ymgysylltu gyda Starlight a rhwydwaith o Reolwyr Chwarae Iechyd i danlinellu'r angen am safonau a chanllawiau tebyg yng Nghymru.

Mae chwarae i blant mewn ysbytai'n cael ei danariannu'n ddifrifol[1 2]: dywed 77% o Ymddiriedolaethau/Byrddau Iechyd Lloegr nad oes ganddynt gyllideb ar gyfer adnoddau chwarae[3] ac mae plant a rhieni wedi galw am fwy o weithgareddau a gwell cyfleusterau sy'n eu galluogi i ryngweithio a chysylltu gydag eraill trwy chwarae.[4] Mae astudiaethau ymchwil graddfa fechan yng Nghymru'n cyfleu darlun tebyg.

Yn gyffredinol, mae'r gweithlu chwarae iechyd presennol wedi ei greu o gyfuniad o Arbenigwyr Chwarae Iechyd (HPSs), Gweithwyr Chwarae Iechyd a rheolwyr neu arweinyddion Gwasanaeth Chwarae Iechyd (sy'n aml wedi cymhwyso fel HPSs). Nid yw hyn yn gyson ar draws ardaloedd Byrddau Iechyd yng Nghymru.

Mae'r mwyafrif o dimau chwarae ysbytai'n dibynnu ar ariannu allanol i un ai ariannu'r tîm neu i dalu am brynu adnoddau. Yn aml, caiff gweithgareddau codi arian eu cyflawni gan aelod o'r tîm iechyd, gan uwch-nyrsys a gan reolwyr ward.

Mae ystafell chwarae ysbyty yn cyfleu neges gref, mae presenoldeb ystafell chwarae ysbyty, a mynediad iddi, yn awgrymu bod gan blant ganiatâd i chwarae. Mae'n cydnabod bod amser a lle i chwarae'n angen anhepgor, yn cynnig seibiant ac yn cyfrannu at weld plant yn gwireddu eu hawl i chwarae. Er eu pwysigrwydd i gleifion a rhieni, mae llawer o ystafelloedd chwarae ysbytai (neu rannau ohonynt) wedi eu haddasu at ddibenion gwahanol ers cael eu cau o ganlyniad i gyfyngiadau COVID-19.

Mae mannau ar gyfer arddegwyr yn cael eu hystyried yn bwysig hefyd. Mae lleoliadau'n ymdrechu i greu mannau ar gyfer ymlacio a chymdeithasu, gyda ffocws ar y buddiannau cadarnhaol y mae profiadau synhwyraidd yn eu cynnig i bob plentyn, ond mae hyn yn dibynnu ar ddealltwriaeth am anghenion chwarae plant hŷn, y gofod sydd ar gael ac adnoddau priodol.

> **"'Dyw hi ddim yn neis gallu gweld allan pan na gawn ni ganiatâd i fynd allan."**

> **"Fe fyddai'n braf cael rhywfaint o awyr iach."**

Gall mynediad i ofodau chwarae'r tu allan fod yn arbennig o bwysig i blant sâl gan y gall gynnig cysur ar wardiau ysbyty dieithr anghyfarwydd, all fod yn annifyr ar brydiau. Mae gofodau awyr agored yn darparu cyswllt gyda natur, all fod yn elfen effeithlon:

- wrth ymdopi gydag a lleihau gorbryder a straen
- mewn strategaethau i leihau ymosodedd
- wrth gynyddu lefelau canolbwyntio mewn plant
- yn natblygiad gwybyddol iach plant
- wrth gynyddu ymdeimlad o les ac iechyd meddwl.

Er hynny, mae mynediad i ofod awyr agored yn gyfyngedig mewn nifer o ysbytai ar draws Cymru.

Er mwyn helpu i wireddu galwad ein maniffesto ar chwarae mewn gofal iechyd, mae Chwarae Cymru'n gwneud yr argymhellion canlynol ar gyfer polisi gofal iechyd yng Nghymru:

1. Ystyried mabwysiadu safonau argymelledig *Play well* GIG Lloegr ar gyfer gwasanaethau chwarae iechyd yng Nghymru
2. Gweithio gyda Chwarae Cymru a Starlight Children's Foundation i gyd-destunoli Canllawiau *Play well* ar gyfer gwasanaethau chwarae iechyd yng Nghymru
3. Gweithio gyda Chwarae Cymru i ystyried ymateb priodol i broblemau dynodedig gyda datblygu'r gweithlu chwarae iechyd.

Mae'n bleser gennym allu cydweithio gyda Starlight i yrru'r argymhellion hyn yn eu blaen. Mae gan y bartneriaeth hon y potensial i wella darpariaeth chwarae mewn ysbytai a lleoliadau gofal iechyd ar gyfer plant sy'n tyfu i fyny yng Nghymru.

Gyda chyllid wedi ei sicrhau am ddwy flynedd, bydd Starlight a Chwarae Cymru yn gweithio gyda'i gilydd i wreiddio chwarae ar draws llwybrau pediatrig, gan ganolbwyntio ar addasu pecyn cymorth *Play well* ar gyfer cyd-destun Cymreig a throsglwyddo cefnogaeth i deuluoedd a hyfforddiant proffesiynol i gyfoethogi dulliau seiliedig ar chwarae mewn gofal pediatrig. Fel rhan o'r gwaith hwn, mae Starlight wedi ymrwymo i osod chwarae wrth galon profiad gofal iechyd pob plentyn yng Nghymru.

---

[1] Gulyurtlu, S., Jacobs, N. ac Evans, I. (2020) *The Impact of Children's Play in Hospital*, Llundain: Starlight Children's Foundation.

[2] Starlight Children's Foundation (2023) *Play in Hospital Report 2022*, Llundain: Starlight Children's Foundation.

[3] Ibid.

[4] Y Comisiwn Ansawdd Gofal (2022) *Children and Young People's Survey 2020*, Y Comisiwn Ansawdd Gofal.

# Llongyfarchiadau a diolch i Ysgol Gynradd Windsor Clive!

**Llongyfarchiadau i'n ffrindiau yn Ysgol Gynradd Windsor Clive yng Nghaerdydd, sydd wedi derbyn Gwobr Aur Ysgolion Sy'n Parchu Hawliau UNICEF yn ddiweddar!**



Gwobr Aur: Parchu Hawliau yw'r trydydd cam, a'r cam uchaf, o'r Gwobrau Ysgolion Sy'n Parchu Hawliau (RRSA). Fe'i dyfernir gan UNICEF UK i ysgolion sydd wedi plannu hawliau plant trwy bob agwedd o fywyd, ymarfer ac ethos ysgol. Er mwyn cyflawni statws Gwobr Aur: Parchu Hawliau, caiff ysgolion eu hasesu gan asesydd Ysgolion Sy'n Parchu Hawliau fydd yn edrych ar waith yr ysgol gyfan i barchu hawliau a'r effaith a gafwyd trwy wreiddio hawliau plant ym mywyd yr ysgol.

## Mae cyflawni safon Gwobr Aur: Parchu Hawliau yn golygu bod tystiolaeth:

- bod yr ysgol wedi mabwysiadu'n benodol agwedd hawliau plant sy'n seiliedig ar Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) ac wedi ei blannu yn ymarfer, ethos a diwylliant yr ysgol
- bod gan y plant, y bobl ifanc a'r oedolion ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o hawliau plant, gydag agweddau ac iaith sy'n parchu hawliau wedi eu gwreiddio ar draws yr ysgol
- bod RRSA wedi cael effaith cadarnhaol ar ddysg a lles y plant a'r bobl ifanc
- bod cynhwysiant ac amrywiaeth yn cael eu hybu a'u dathlu'n weithredol
- bod y plant yn eu hystyried eu hunain fel dinasyddion byd-eang sy'n parchu hawliau ac yn eiriolwyr dros gyfiawnder cymdeithasol, tegwch a hawliau plant gartref a thramor
- bod arweinyddion yn defnyddio CCUHP fel sbardun ar gyfer gwella'r ysgol.

Mae'r plant hefyd yn chwarae rôl arweiniol gynyddol wrth yrru cynnydd yn ei flaen. Mae Ysgolion Gwobr Aur Sy'n Parchu Hawliau yn anelu i gryfhau ac ehangu:

1. **Addysgu a dysgu am hawliau:** ar gyfer cymuned yr ysgol gyfan trwy hyfforddiant, y cwricwlwm, gwasanaethau ysgol, pynciau, diwrnodau/wythnosau ffocws, arddangosfeydd.
2. **Addysgu a dysgu trwy hawliau:** trwy fodelu iaith ac agweddau sy'n parchu hawliau a gwneud penderfyniadau strategol sy'n cynnwys y disgyblion.
3. **Bod yn llysgenhadon dros hawliau pobl eraill:** datblygu fel dinasyddion sy'n parchu hawliau.

Soniodd Llywodraeth yr Ysgol wrthym am eu cynnydd i sicrhau'r wobr Aur: Parchu Hawliau pan ymwelom â'r ysgol i ddathlu Diwrnod Plant y Byd ym mis Tachwedd 2025.

I nodi Diwrnod Plant y Byd, ac yn seiliedig ar adborth gan y plant, fe wnaeth yr ysgol ymestyn amser chwarae. Roeddem yn falch iawn i glywed bod yr ysgol wedi cael amser chwarae estynedig arall cyn gwyliau'r Gwanwyn yn dilyn llwyddiant yr un cyntaf ym mis Tachwedd.

Yn ogystal, trefnodd Llywodraeth yr Ysgol Yrfa Deganau ar Ddiwrnod Plant y Byd i gasglu hen deganau mewn cyflwr da i'w pasio ymlaen i blant eraill. Yn benodol, roedd Llywodraeth yr Ysgol yn awyddus y dylai plant sy'n ffoaduriaid ac sy'n ceisio lloches gael rhai o'r teganau. Gyda chymorth Gwasanaethau Chwarae Plant Caerdydd, rhannwyd y teganau gyda phlant a theuluoedd, a'u rhoi i fudiadau sy'n cefnogi chwarae plant. Diolch yn fawr i bawb yn yr ysgol wnaeth helpu gyda hyn.

Diolch hefyd i Lywodraeth yr Ysgol am ein croesawu i gyfarfod ddechrau mis Mawrth 2026 ble y trafodwyd maniffesto Chwarae Cymru ar gyfer Llywodraeth nesaf Cymru. Cyflwynodd y plant gyngor pwysig a defnyddiol iawn i'n helpu gyda chreu *'Y Gymru yr ydw i am dyfu i fyny a chwarae ynddi': Maniffesto chwarae gan blant Cymru* **(gweler tudalennau 19 a 20).**

# ‘Y Gymru yr ydw i am dyfu i fyny a chwarae ynddi’

## Maniffesto chwarae gan blant Cymru

**Mae angen i’r Gymru yr ydw i am dyfu i fyny a chwarae ynddi fod yn le gwych i chwarae.**

**Ry’n ni – blant Cymru – yn gofyn i bob aelod o Senedd Cymru i wneud yn siŵr bod gan bob plentyn ar draws y wlad fannau da i chwarae a digon o amser i chwarae.**



## Byddwch yn arweinyddion da

Mae meddwl am chwarae’n ein helpu ni, ein teuluoedd a’n cymdogaethau i fod yn hapusach ac yn iachach. Ry’n ni angen i wleidyddion a gweithwyr y llywodraeth i wneud rheolau a chynlluniau da i’n helpu i chwarae.

**Yn y Gymru yr ydw i am dyfu i fyny a chwarae ynddi, bydd Llywodraeth Cymru:**

- yn dal i wrando ar blant ac yn helpu pawb i ddeall ein hawl i chwarae
- yn gwneud yn siŵr bod eich penderfyniadau am blant (a’n teuluoedd) yn ystyried chwarae
- yn gwneud yn siŵr bod oedolion sy’n gweithio gyda phlant yn gwybod pa mor bwysig yw chwarae
- yn ceisio gwneud yn siŵr bod digon o arian fel y gallwn ni gael llawer o gyfleoedd i chwarae.

## Cymdogaethau chwareus

Ry’n ni angen teimlo’n ddiogel yn y mannau ble rydym yn byw a chwarae, a bod croeso inni yno. Mae meysydd chwarae’n hwyl ac yn bwysig, ond nid dyna’r unig le y byddwn ni’n chwarae.

**Yn y Gymru yr ydw i am dyfu i fyny a chwarae ynddi, bydd Llywodraeth Cymru:**

- yn gwneud yn siŵr bod trefi, pentrefi a pharciau’n fannau hwyliog a glân i chwarae
- yn gwneud yn siŵr bod strydoedd yn ddigon diogel fel y gallwn ni gyrraedd y mannau ble byddwn ni’n chwarae
- yn gwneud yn siŵr bod gan arddegwyr fannau da i chwarae a gweld eu ffrindiau
- yn gwneud yn siŵr bod cynlluniau chwarae a gweithwyr chwarae fel y gallwn chwarae a chael hwyl – ac fel bod ein rhieni’n gwybod ein bod yn ddiogel.

Playful Childhoods

## Ysgolion chwareus

Mae amser chwarae ac amser egwyl mor bwysig i ni. Mae'n rhoi seibiant i ni, yn ein helpu i ddysgu'n well ac fe allwn ni fod gyda'n ffrindiau.

**Yn y Gymru yr ydw i am dyfu i fyny a chwarae ynddi, bydd Llywodraeth Cymru:**

- yn gwneud yn siŵr bod digon o amser i chwarae a chael egwyl yn ystod y dydd – ac yn ystod amser cinio, ry'n ni angen amser i fwyta a gweld ein ffrindiau
- yn gwneud yn siŵr na fyddwn ni'n colli ein hamser chwarae os na fyddwn ni wedi gwneud ein gwaith yn ddigon cyflym
- yn gwneud yn siŵr na fyddwn ni'n colli amser chwarae os bydd rhywun yn teimlo nad ydyn ni wedi ymddwyn yn iawn
- yn ceisio canfod ffyrdd i'n helpu i chwarae hyd yn oed os ydyn ni'n ei chael yn anodd chwarae gydag eraill
- yn helpu ysgolion i adael inni chwarae yno ar ôl ysgol os nad oes unman diogel ger ein tai, neu os mai dyna'r unig le y gallwn weld ein ffrindiau
- yn gwneud yn siŵr bod pob oedolyn yn yr ysgol yn deall pa mor bwysig yw chwarae a gwneud yn siŵr eu bod yn gwybod sut i'n helpu i chwarae.

## Chwarae pan fydd bywyd yn anodd

Bydd rhai plant yn mynd trwy adegau anodd – fel pan fyddan nhw yn yr ysbyty, pan nad oes ganddyn nhw a'u teulu eu lle eu hunain i fyw neu pan nad ydyn nhw'n gallu byw gyda'u teuluoedd eu hunain. Pan fydd hyn yn digwydd, mae chwarae'n ein helpu i deimlo'n ddiogel ac ychydig yn obeithiol.

**Yn y Gymru yr ydw i am dyfu i fyny a chwarae ynddi, bydd Llywodraeth Cymru:**

- yn gwneud yn siŵr bod gan bob ysbyty ystafell chwarae, digon o bethau i chwarae gyda nhw a phobl sydd â'r unig swydd o helpu plant i chwarae – byddai mannau awyr agored i chwarae'n dda hefyd
- yn gwneud yn siŵr y gall plant sydd heb gartref aros yn rhywle sydd â lle i chwarae, ble mae chwarae'n cael ei ganiatáu, a ble mae'n ddiogel iddyn nhw chwarae a chael hwyl
- yn gwneud yn siŵr os nad yw plant yn gallu byw gyda'u teuluoedd eu hunain, y gallan nhw aros mewn cartrefi ble mae'r bobl fydd yn gofalu amdanyn nhw'n deall chwarae fel y gallan nhw helpu plant i chwarae, yn enwedig pan maen nhw'n ofnus neu'n drist.

### Mae chwarae o bwys i ni oherwydd ei fod yn ein helpu i:

- wneud ffrindiau a deall pobl
- cadw'n iach a theimlo'n dda
- teimlo'n rhan o ble ry'n ni'n tyfu i fyny
- dysgu am bethau, datrys problemau a thyfu
- bod yn anturus a dewr
- gweithio allan sut i wneud pethau sy'n anodd
- ac mae'n hwyl!

## Yr hawl i chwarae

Mae gan bob plentyn hawl i chwarae. Mae hyn yn cael ei gydnabod yn Erthygl 31 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP). Yng Nghymru, mae gan Lywodraeth Cymru ddeddfau ar chwarae plant. Mae ein llywodraeth wedi gweithio'n galed i geisio gwneud yn siŵr bod gan blant ddigon o gyfleoedd i chwarae.

Yn y Gymru yr ydw i am dyfu i fyny a chwarae ynddi, bydd Llywodraeth Cymru yn dal i weithio'n galed i wneud yn siŵr bod pob plentyn yn gallu chwarae. Bob dydd.

## Am Chwarae Cymru

Chwarae Cymru yw'r elusen genedlaethol sy'n sefyll dros hawl plant i chwarae. Bydd Chwarae Cymru'n gweithio'n galed bob amser i wneud yn siŵr bod oedolion yn gwybod pa mor bwysig yw chwarae i bob plentyn. Mae *Plentyndod Chwareus* yn ymgyrch gan Chwarae Cymru.

Chwarae Cymru Play Wales